

Taith gerdded hanesyddol drwy harddwch naturiol eithriadol ar hyd Camlas Abertawe



Mae hanes cludiant diddorol yn yr ardal o gwmpas Pontardawe ac yn ffodus mae Camlas Abertawe, sy'n ffurf gynnar ar seilwaith swmpgludo, yn parhau i fodoli i raddau helaeth. Yn anffodus, o ran y rheilffyrdd, mae holl olion Rheilffordd y Midland ym Mhontardawe wedi cael eu dileu gan ddatblygiad ffyrdd ac archfarchnad.

Agorwyd Camlas Abertawe, sy'n 26 cilometr o hyd, yn 1798 a chafodd ei hadeiladu i gludo haearn o Ystalyfera a Phontardawe i Ddociau Abertawe. Erbyn 1873, roedd wedi ei gwerthu i Reilffordd y Great Western (GWR) a ystyriai bod hyn yn ffordd o gystadlu â Rheilffordd y Midland oedd wedi agor yn ddiweddar. Erbyn 1902, nid oedd y gamlas yn broffidiol bellach a daeth trafndiaeth fasnachol i ben yn 1931. Dim ond y 6 milltir isaf oedd yn weithredol ar ôl 1904. Cyflwynwyd cyfres o ddeddfau rhwng 1928 a 1962 i gau'r gamlas ar gyfer trafndiaeth gludo, ond mae'n cael ei defnyddio o hyd ar gyfer cyflenwi dŵr diwydiannol.

Roedd Pontardawe yn dref ddiwydiannol o bwys mawr gyda gwaith dur gweithredol a diwydiannau metel cysylltiedig tan ddechrau'r 1960au. Mae'r rhain, ynghyd â'r rheilffyrdd a'r seilwaith diwydiannol arall wedi cael eu dileu bron yn llwyr a'u disodli gan ffyrdd, diwydiant ac allfeydd adwerthu.

Manylion y Llwybr

Mae'r safle bysiau ym Mhontardawe yn agos i ddechrau'r llwybr wrth y Ganolfan Gelfyddydau (CG 723040) yn Stryd Herbert. Cerddwch i gyfeiriad y groesffordd ac ar ôl 100 metr, mae'r ffordd yn croesi'r gamlas; trowch i'r dde ac ymunwch â'r llwybr halio. Byddwch yn gweld eglwys nodedig San Pedr yn ymgodi uwchben (ar y chwith); ar ôl 100 metr, croeswch y ffordd ac ailymuno â'r llwybr ar yr ochr arall. Mae'r 0.5 cilometr nesaf yn mynd drwy dirwedd lled-ddiwydiannol cyn iddi newid yn gefn gwlad dymunol.

Roedd y rhan hon o'r gamlas yn un o'r darnau cynharaf i gael eu hadfer ac mae mewn cyflwr da. Roedd yr ardal ar y dde wrth Ganolfan yr Arena gynt yn ganolfan ar gyfer storio a dosbarthu pyst pwll (a ddefnyddiwyd i gynnal y tramwyfeydd tanddaearol yn y glofeydd) ledled De Cymru.

Am y 2 gilometr nesaf, mae'r llwybr yn mynd yn ei flaen ar dir agored gyda mynyddoedd i'r dde a chamlas i'r chwith. Ychydig cyn i chi gyrraedd Ynysmeudwy (CG 741058), mae dau loc, a'r ddau mewn cyflwr gwael ac yn ddim mwy na choredau erbyn hyn. Mae'r cwmpasoedd yn goetir hardd.

Yn Ynysmeudwy, croeswch y ffordd a disgynnwch at y rhan nesaf, sef gwarchodfa natur ddynodedig a reolir gan y cyngor lleol. Mae'r llwybr yn fwy cul a garw ac mae'r ardal yn llawn fflora ac adar. Ar ôl 1.5 cilometr, rydych yn cyrraedd yr A4067 ble mae'r gamlas yn dod i ben. Am 200 metr, cerddwch ar hyd yr ymyl glaswelltog ar y chwith (dim palmant) at y gyffordd (CG 753065). Croeswch yn ofalus (traffig cyflym) a dilynwch drac bach ar draws yr afon, gan ymuno â'r llwybr beiciau NCN 43.

Adeiladwyd yr NCN 43 ar lwybr Rheilffordd y Midland a gysylltai Abertawe ag Aberhonddu ac a adeiladwyd i gludo glo i Ganolbarth Lloegr ynghyd ag o'r glofeydd lleol i Ddociau Abertawe. Roedd gan y rheilffordd gangen o Ystalyfera i Frynman. Roedd trenau teithwyr yn rhedeg i Aberhonddu tan 1930, ac ar ôl hynny i Frynman tan 1952. Arhosodd y rheilffordd ar agor gan wasanaethu glofeydd yn Ystalyfera ac Abercraf tan ddiwedd y 1960au.

Trowch i'r chwith i'r NCN 43; yma, byddwch yn gweld cofeb gynhyrfus i'r pedwar glöwr a gollodd eu bywydau'n drasig mewn trychineb mewn cloddfa ddrifft yng Nglofa gyfagos Tareni. Dilynwch y llwybr am 1.5 cilometr i safle ierdydd rheilffordd Cyffordd Ynysygeinon ble mae gwely trac y rheilffordd i Aberhonddu, sydd bellach wedi tyfu'n wyllt, yn dringo'n serth i'r dde. Mae'r llwybr beiciau'n dilyn hen lwybr Brynaman.


Roedd Ynysygeinon nid yn unig yn lleoliad rheilffordd pwysig ond mae'n adnabyddus hefyd am chwedl enwog.

O Ynysygeinon, mae'r llwybr yn arwain i'r ffordd wrth y gylchfan ger Asda (CG 767083). Gallwch ddiweddu eich taith gerdded yma neu fynd 0.75 cilometr ymhellach ymlaen i Westy'r New Swan – lle rhagorol am luniaeth, cyn dal y bws.

Roedd Ystalyfera'n ganolfan flaenllaw i'r diwydiannau haearn a thun ac er bod holl olion y Gwaith Tun wedi diflannu bellach dan Uwchfarchnad Asda, mae olion Gwaith Haearn Ynyscedwyn wedi'u hadfer yn dda a gellir eu gweld yng Nghlan-rhyd (rhwyng Ystalyfera ac Ystradgynlais); mae hwn cilometr y tu hwnt i ddiwedd y daith ond mae'n werth ymweld ag ef.

Pellterau metrig a roddir ym mhob man

Mae CG yn cyfeirio at gyfeirnod grid yr Arolwg Ordnans



Information Panel

Start point:	Man cychwyn Stryd Herbert, Pontardawe (CG 723040)
End point:	Man terfyn Cylchfan yr A4067 Ystalyfera (ger ASDA) neu Westy'r New Swan Ystalyfera
Map:	Explorer yr AO 165 Landranger yr AO 159/160
Distance:	6.5-7 cilometr
Time:	3.5 awr
Grade:	Hawdd y gymedrol
Refreshments:	Pontardawe Canol y Dref Ystalyfera ASDA Ystalyfer Gwesty New Swan
Toilets:	Stryd Herbert, Pontardawe ASDA, Ystalyfera
Train Stations:	Abertawe 13 cilometr Castell-nedd 6 cilometr
Bus Stops:	Pontardawe Jiwbili Ystalyfera Gwesty New Swan
Parking:	Maes parcio cyngor Pontardawe (codir tâl) Mae'r bws X6 yn cysylltu Pontardawe â Ystalyfera
Buses:	Mae dau ben y daith (Ystalyfera a Pontardawe) ar lwybr y bws X6 Swansea-Ystradgynlais